# STEVE LLOYD
## CLWB PÊL-DROED DREIGIAU DÂR

Sefydlodd Steve Dreigiau Dâr yn 2022 wedi iddo fethu â dod o hyd i glwb lleol ar gyfer ei ferch. Dechreuodd gydag un grŵp oedran, ond erbyn hyn, mae gan y clwb 6 tîm ac mae dros 100 o blant wedi'u cofrestru.

Mae Steve wrth galon y clwb ac wedi goruchwylio datblygiad y clwb gan gyflawni dyletswyddau diddiwedd, megis dod o hyd i noddwyr, ymgeisio am gyllid, trefnu cit , cynllunio sesiynau hyfforddi a hysbysebu er mwyn recriwtio chwaraewyr. Mae'n gadeirydd ar y clwb ac yn hyfforddi un o'r grwpiau oedran. Ei flaenoriaeth yw sicrhau bod gyda phob plentyn y cyfle i chwarae pêl-droed a chael hwyl.

Mae Steve yn benderfynol ac yn mynd y tu hwnt i'r disgwyl ar gyfer y clwb a'i aelodau. Mae'n gweithio'n galed, a bob tro â gwên ar ei wyneb. Hebddo, fyddai'r clwb ddim yn bodoli.



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# GWIRFODDOLWR Y MIS

## HYDREF 2025